



Cynllun Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Ardal Cyffordd Llandudno

Asesiad Effaith Iaith

Mai 2011

Cynnwys

	Tudalen
1 Cyflwyniad	2
1.1 Cynllun Iaith Gymraeg Conwy	2
2 Proffil Iaith Gymraeg	3
2.1 Proffil Ardal Conwy	3
2.2 Proffil Ardal Cyffordd Llandudno	4
2.3 Proffiliau Ysgol	5
3 Dewisiadau Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol Asesiad Effaith Iaith	8
4 Casgliadau ac Argymhellion	12
Atodiad 1 – Methodoleg Asesiad Effaith Iaith	14
Atodiad 2 – Mintai Iaith	16

1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn cynnal adolygiad manwl o'i ysgolion cynradd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Canlyniad hyn oedd cynhoeddi *'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy'* a'r *'Cynllun Gweithredu'* cysylltiedig yn Hydref 2010, ar ôl ei mabwysiadu gan y Cabinet.

Cytunodd y Cabinet hefyd i:

- i) Ymgynghori ag ardaloedd yn fanwl (asesiad effaith llawn) ar y dewisiadau yn y Cynllun Gweithredu, a
- ii) Chynnal cyfarfodydd rhanddeiliaid gyda'r ardaloedd hynny a nodwyd ar gyfer *'adolygiad mewn dwy flynedd'*.

Bydd gwybodaeth allweddol, gan gynnwys asesiadau effaith ar iaith, cydraddoldeb, cludiant, ar yr ardal ac adeiladau addas i'r pwrpas yn cael eu gwneud er mwyn cyfeirio gwerthusiad dewis.

Bydd cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol yn cael eu cynnal gyda phob ysgol o fewn ardal adolygiad dechreuol er mwyn cyflwyno'n fanylach y dewisiadau a ystyriwyd ar gyfer pob ardal a chanlyniad y gwerthusiad dewis.

Bydd y ddogfen hon yn ystyried effaith y dewisiadau arfaethedig ar y Gymraeg yn Ardal Cyffordd Llandudno.

1.1 Cynllun iaith Gymraeg Conwy

Prif nodau ac amcanion y Cynllun iaith Gymraeg yw:

- Sicrhau fod addysg cyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog ar gael i bob plentyn y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn dymuno iddynt gael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog, o fewn pellter teithio rhesymol o gartref y plant. Golyga hyn blant o oed cyn ysgol a hŷn.
- Sicrhau continwwm sy'n datblygu o addysg gynradd cyfrwng y Gymraeg/dwyieithog hyd at addysg uwchradd cyfrwng y Gymraeg/dwyieithog. Bydd disgyblion sydd wedi cael eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu mynychu ysgol uwchradd cyfrwng y Gymraeg/dwyieithog, i hyrwyddo continwwm ieithyddol o CA4 ymlaen hyd at eu gyfa dysgu gydol oes i ddisgyblion a myfyrwyr yn y sir.
- Darparu cyfleoedd pellach i ddisgyblion gael addysg cyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei haddysgu fel iaith gyntaf a/neu ail iaith ar amserlen pob ysgol yng Nghonwy, yn unol â gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer pob cyfnod allweddol.
- Sicrhau fod plant a phobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig yn cael cyfle ieithyddol cyfartal o ran addysg cyfrwng y Gymraeg yn ystod y broses ddatganiadau gyfan, yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru.
- Sicrhau fod pob disgybl sy'n mynychu ysgol cyfrwng y Gymraeg penodedig/dwyieithog yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl erbyn diwedd CA2.
- Gweithio mewn partneriaeth â phob ysgol er mwyn gwella safon Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith. Bydd pob ysgol yn y sir yn cael cyngor a chefnogaeth gan ymgynghorwyr y Gymraeg a gan wasanaethau cefnogi ysgolion. Darperir mwy o

gefnogaeth gan yr Athrawon Bro a fydd yn ymweld ac yn cadw golwg ar safonau iaith ysgolion ar ran yr AALI.


- Cynnal a hyrwyddo'r '*Rhaglen Hyfforddiant Mewn Swydd*' sy'n bodoli sy'n cefnogi datblygiad y Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith.
- Darparu cyfleoedd i ddisgyblion wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ethos/nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy'r Cwricwlwm Cymreig.
- Sicrhau fod disgyblion newydd i'r sir sy'n ymfudwyr di-Gymraeg yn gallu gwneud defnydd llawn o'r Canolfannau Iaith Gymraeg er mwyn iddynt, ar ôl dilyn cwrs Gymraeg dwys, fedru integreiddio'n llawn i'w hysgol a'u cymdeithas.
- Hyrwyddo datblygiad yr AALL o sgiliau Gymraeg disgyblion trwy weithgareddau a phrosiectau penodol sy'n caniatáu ar gyfer trosglwyddo iaith effeithiol o CA2 i CA3.
- Parhau i gynnig hyfforddiant penodol i alluogi athrawon Gymraeg ail iaith i wella eu sgiliau cyflwyno iaith.

2. Proffil iaith Gymraeg

2.1 Proffil Ardal Conwy¹

- 29% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg
- Dim ond 54% o breswylwyr a anwyd yng Nghymru
- Mae'r ddwy gyfran yn cynyddu wrth symud i'r gorllewin ac i'r de

Map 1: cyfran o siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy, yn ôl ward



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 (tabl KS025)

Dim ond ychydig yn fwy na hanner poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sydd wedi'u geni yng Nghymru (54%). Yn rhannol mae hyn yn rhoi cyfrif am y gyfran gweddol isel o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg o gymharu â'r ardaloedd i'r gorllewin. Fodd bynnag, mae 29% o'r boblogaeth dros dair blwydd oed yn siaradwyr Cymraeg - yn

¹ CBSC – Proffil Ardal i Gonwy (Hyd 2010)

sylweddol uwch na ffigwr Cymru gyfan o 20.5%. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn fwyaf cyffredin ymysg y rhai o oedran ysgol (gall 49.5% o rai 5-15 oed siarad Cymraeg).

Yn gyffredinol, mae nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rhai a anwyd yng Nghymru yn cynyddu tuag at y gorllewin, ac wrth deithio yn fewndirol o'r ardaloedd arfordirol mwy poblog. Mae'r gallu i siarad Cymraeg ar ei uchaf yn ward ddeheuol wledig Uwchaled (74% yn siarad Cymraeg), ac ar ei hisaf yn ardal arfordirol ddwyreiniol Towyn a Bae Cinmel (llai na 11%).

2.2 Proffil Ardal Cyffordd Llandudno

Mae anheddiad Cyffordd Llandudno wedi'i gynnwys yn bennaf yn wardiau Marl a Phensarn, ac ar ei ffin mae ward Deganwy ar hyd Ffordd Pentywyn. Mae dwy ysgol gynradd yn y cylch, sef Ysgol Nant y Coed ac Ysgol Maelgwn. Mae dalgyrch Ysgol Nant y Coed yn fras yn dilyn terfyn ward Pensarn ond mae hefyd yn ymestyn i Marl. Mae gan Ysgol Maelgwn ddau ddalgyrch amlwg sy'n gwasanaethu ffrydiau cyfrwng y Gymraeg a Saesneg, gyda'r dalgyrch cyfrwng y Saesneg yn cynnwys llawer o ward Marl a dalgyrch cyfrwng y Gymraeg yn cynnwys yr ardal hon a'r ardal estynedig y tu hwnt.

Poblogaeth y ddwy ward yw 6,350.² Mae'n cynnwys cyfran ychydig yn uwch o bobl ifanc hyd 15 oed na chyfartaledd cymedr Bwrdeistref Sirol Conwy, a chyfran is o bobl o oed penswn.

Poblogaeth dalgyrch Ysgol Nant y Coed yw 3,024 gyda 3,352 o breswylfeydd o fewn milltir i'r ysgol. Poblogaeth ffrwd cyfrwng y Saesneg dalgyrch Ysgol Maelgwn yw 2,738 gyda 3,835 tŷ o fewn milltir i'r ysgol.

Mae Cynllun Datblygu presennol Conwy (2007-2022) yn dangos y bydd safleoedd tai yn cael eu datblygu yn nalgylch Cyffordd Llandudno a Maelgwn ar gyfer 241 o dai pellach a 200 o dai eraill yn nalgylch Nant y Coed. Mae hyn yn cynnwys dyraniadau tai arfaethedig newydd a safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio presennol. Mae'n bosibl y bydd 40 disgybl ychwanegol o ganlyniad i'r tai ychwanegol hyn yn nalgylch Maelgwn a'r posibilrwydd o 30 disgybl o ganlyniad i'r tai newydd yn nalgylch Nant y Coed. Mae datblygiadau preswyl mawr wedi eu cynllunio erbyn 2022 yn safleoedd Esgyryn a'r clwb cymdeithasol.³

Yng Nghyfrifiad 2001⁴, roedd ychydig dros 60% o boblogaeth Marl wedi eu geni yng Nghymru, gyda 30.3% yn siarad Cymraeg (cynnydd bychan ers 1999), a 44% gydag un neu fwy o sgiliau Cymraeg.


Yn Ward Pensarn, cafodd dros 67% o'r boblogaeth eu geni yng Nghymru, gyda 31.9% yn siarad Cymraeg (gostyngiad bychan ers 1999), a 45.7% gydag un neu fwy o sgiliau Cymraeg.

² 2009 Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol; amcangyfrifon poblogaeth ardal fach arbrol ONS

³ Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 (Argraffiad diwygiedig 2011) Polisi Strategol HOU/1 – Cyfarfod â'r angen am dai

⁴ Ystadegau Allweddol Cyfrifiad, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Map 2: Wardiau Marl a Pensarn gydag Ysgolion Cyffordd Llandudno



2.3 Proffiliau Ysgolion


Ysgol Maelgwn

Mae Ysgol Maelgwn yn ysgol gynradd sirol i blant rhwng 3 a 11 mlwydd oed. Mae wedi'i lleoli ar Stryd Broad, Cyffordd Llandudno ac fe'i sefydlwyd yn 1907. Yn Ionawr 2011, roedd 214 o ddisgyblion yn yr ysgol yn cael eu haddysgu trwy ddwy ffordd – cyfrwng y Gymraeg a dysgwyr Cymraeg.

Roedd yr arolwg ESTYN diwethaf ar gyfer Ysgol Maelgwn (2007)⁵ yn nodi “mae medrau dwyieithog disgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion drwy'r ysgol yn dangos gallu i wrando ar y Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd, ac yn gallu ymateb i gyfarwyddiadau ac i gwestiynau yn gynyddol hyderus. Maent yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cyhoeddus, megis mewn sesiynau addoli ar y cyd”.

“ Dengys y disgyblion ymwybyddiaeth dda o ddiwylliant Cymreig drwy eu hymwneud â gweithgareddau'r Urdd a thrwy gydweithio â Beirdd Plant Cymru. Mae'r defnydd o'r Gymraeg tu mewn a thu allan i'r gwersi, er mwyn hybu

Map 3. Dalgylch Ysgol Maelgwn



⁵ Adroddiad Arolwg ESTYN o Ysgol Maelgwn Chwefror 2008

dwyieithrwydd drwy'r ysgol, yn elfen ragorol. Mae darpariaeth yr ysgol i hybu medrau dwyieithog disgyblion yn dangos elfennau o ragoriaeth. Mae'r athrawon yn manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg 'achlysurol' ac mewn cyd-destunau perthnasol".

"Tystiolaeth o'r arolwg presennol yn awgrymu bod cynnydd pendant iawn i'w weld mewn safonau Cymraeg ail iaith".

Ysgol Nant y Coed


Wedi ei hadeiladu yn 1971, mae **Ysgol Nant y Coed** yn Ysgol Gynradd Sirol i blant rhwng 3 a 11 mlwydd oed. Yn Ionawr 2011, roedd 177 o ddisgyblion yn yr ysgol yn cael eu haddysgu trwy'r Saesneg, gyda Chymraeg arwyddocaol yn cael ei ddefnyddio yn y cwricwlwm.

Bu i'r arolwg ESTYN diwethaf ar gyfer Ysgol Nant y Coed (2007)⁶ nodi "Caiff cymhwysedd dwyieithrwydd y disgyblion ei feithrin yn effeithiol. Manteisir ar bob cyfle i ddatblygu geirfa Gymraeg y disgyblion yn achlysurol yn ystod y dydd. Datblygir y dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus o fewn nifer dda o bynciau megis celf, hanes a daearyddiaeth".

"Rhoddir sylw da i hyrwyddo medrau dwyieithog disgyblion. Gwneir defnydd cyson o'r Gymraeg yng ngweithdrefnau dydd i ddydd yr ysgol ac mae'r disgyblion yn gwneud ymdrechion priodol i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'w gwersi. Rhoddir sylw da i'r Cwricwlwm Cymreig yng ngwaith yr ysgol. Astudir treftadaeth a diwylliant Cymru yn effeithiol drwy bynciau megis hanes, celf a cherddoriaeth, a thrwy weithgareddau allgyrsiol yn gysylltiedig â'r Urdd".

"Mae medrusrwydd dwyieithrwydd disgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion o bob oed yn cyfathrebu'n rhwydd yn Saesneg. Maent yn cyfathrebu gyda rhuglder a dealltwriaeth gynyddol yn Gymraeg".

Map 4. Dalgylch Ysgol Nant y Coed



⁶ Adroddiad Arolwg ESTYN Ysgol Nant y Coed Chwefror 2007

	Ysgol Maelgwn	Ysgol Nant y Coed
Nifer y Disgyblion (yn Ionawr 2011)	214	177
Categori ieithyddol yr ysgol	Ffrwd Ddeuol	Saesneg yn bennaf
Defnydd Disgyblion o'r Gymraeg		
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref:		
<i>Siarad Cymraeg gartref</i>	41%	5%
<i>Nid yn siarad Cymraeg gartref</i>	16%	9%
<i>Amherthnasol (nid yn gallu siarad Cymraeg)</i>	43%	86%
Canran a <u>addysgir</u> trwy gyfrwng y Gymraeg	56%	0%
Canran o blant a <u>gafodd</u> Asesiad Athro mewn Cymraeg erbyn diwedd		
<i>Cyfnod Allweddol 1</i>	52%	0%
<i>Cyfnod Allweddol 2</i>	54%	0%
O'r rhai a gafodd Asesiad Athro yn Gymraeg, y ganran o blant a <u>gyflawnodd</u> yn		
<i>Cyfnod Allweddol 1</i>	60%	n/a
<i>Cyfnod Allweddol 2</i>	77%	n/a
Cyfrwng iaith disgyblion ar y		
<i>buarth</i>	Cymraeg gyda Saesneg achlysurol / Dwyieithog	Saesneg Amherthnasol Saesneg
<i>Clwb Brechwast</i>		
<i>Clwb ar ôl ysgol</i>		
Yr ysgol yn cymryd rhan yn flynyddol mewn:		
<i>Cylch Meithrin / Ti a Fi</i>	Y	N
<i>Eisteddfodau</i>	Y	Y
<i>Urdd</i>	Y	Y
<i>Ymweliadau dysgu Cymraeg (e.e. Glan Llyn)</i>	Y	Y
<i>Gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg eraill</i>	Y	Y
Defnyddir yr ysgol gan yr ardal i ddysgu Cymraeg	Y	N
Defnydd Staff / Ilywodraethwyr o'r Gymraeg		
Canran o staff addysgu sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg	100%	100%
Canran o staff cefnogi sy'n gallu siarad Cymraeg:		
<i>Yn rhugl</i>	75%	63%
<i>Siarad Cymraeg ond nid yn rhugl</i>	25%	25%
<i>Ni allant siarad Cymraeg</i>	0%	12%
Canran o lywodraethwyr sy'n gallu siarad Cymraeg:		
<i>Yn rhugl</i>	25%	38%
<i>Siarad Cymraeg ond nid yn rhugl</i>	25%	0%
<i>Ni allant siarad Cymraeg</i>	50%	62%
Iaith a ddefnyddir fwyaf yn ystod:		
<i>Cyfarfodydd Ilywodraethwyr</i>	Saesneg Saesneg Cymraeg	Saesneg Saesneg Cymraeg
<i>Cyfarfodydd CRhA</i>		
<i>Cyfarfodydd Staff</i>		
Defnydd o'r Gymraeg yn y Gymuned (Cyfrifiad 2001)		
(rhai 3+) Canran o Ward Marl sy'n:		
<i>Siarad Cymraeg</i>		30.3%
<i>Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg</i>		43.6%
(rhai 3+) Canran o Ward Pensarn sy'n:		
<i>Siarad Cymraeg</i>		31.9%
<i>Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg</i>		45.7%

3. Dewisiadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer Newid Strwythurol Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg

Ardal	Ysgolion	Band Ymgynghori	Dewis sy'n cael ei arwain gan y gyrwyr (1)	Dewis a ddymunir gan yr ardaloedd (2)	Dewisiadau amgen	
					Dewis (3)	Dewis (4)
Ardal Cyffordd Llandudno	Maelgwn Nant y Coed	A	Ysgol ardal ar un safle (newydd). Un ai <i>Esgyryn</i> neu <i>Albini House</i>	Ysgol ardal ar un safle (newydd). Un ai <i>Esgyryn</i> neu <i>Albini House</i>	Cadw'r ysgolion presennol	Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli

	Dewisiadau 1 a 2	Dewis 3	Dewis 4	Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol
Defnydd disgyblion o'r Gymraeg				
Defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn y cartref	Niwtral (cadarnhaol yn y tymor canol)	Niwtral	Niwtral (cadarnhaol yn y tymor hir)	<p>Mae patrymau iaith y cartref, ar ôl eu sefydlu, yn anodd ei newid. Byddai ymwybyddiaeth o werth dwyieithrwydd yn cynyddu nifer y cartrefi ble mae rhieni yn siarad Cymraeg yn achlysurol. Byddai un strwythur rheoli cydlynedig ar un safle yn debygol o arwain at fanteision mewn cyfnod llai na rhedeg dau safle.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Hyrwyddo polisi iaith yr ysgol yn glir o'r dechrau. ▪ Gwneud rhieni a darpar rieni yn ymwybodol o fanteision bod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. ▪ Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg oedolion sy'n amharod "Ma' dy Gymraeg di'n Grêt!" ▪ Cyfleoedd i rieni fynychu dosbarthiadau dysgu Cymraeg. ▪ Sesiynau byr, anffurfiol i ymarfer Cymraeg cyn diwedd y diwrnod ysgol.
Disgyblion a <u>addysgir</u> trwy gyfrwng y Gymraeg	Cadarnhaol	Niwtral	Niwtral (cadarnhaol yn y tymor hir)	Mae gan y ddwy ysgol gryfderau a rhagoriaeth gydnabyddedig mewn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a Chymraeg fel ail iaith. Mae hanner y disgyblion mewn un ysgol yn cael eu haddysgu yn bennaf trwy'r

	Dewisiadau 1 a 2	Dewis 3	Dewis 4	Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol
				<p>Gymraeg; y gweddill, ynghyd â phawb yn yr ysgol arall yn datblygu agweddau o'r cwricwlwm a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai datblygu disgyblion hollol ddwyieithog fod yn ganolbwynt parhaus a phwysig yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Byddai cadw golwg ar y datblygiad ar un safle yn fwy cyson na ar ddau safle.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Mae'r ysgol yn ystyried datblygu model Mintai Iaith (gweler atodiad 2). ▪ Bydd trefniant dosbarth yn anelu at ddatblygu anghenion ieithyddol penodol y fintai. ▪ Bydd tracio disgyblion yn ystyried eu cynnydd wrth ddatblygu dwyieithrwydd. ▪ Bydd adroddiad y pennaeth i'r llywodraethwyr yn cynnwys canrannau o ddisgyblion ym mhob mintai iaith.
Disgyblion sy'n <u>cael</u> Aseiad Athro mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 a 2	Cadarnhaol	Niwtral	Niwtral (cadarnhaol yn y tymor canol)	<p>Mintai A, B a C1 i gael AA mewn Cymraeg a Saesneg yn y ddau gyfnod allweddol. Disgyblion yn C2 i gael AA mewn Cymraeg ail iaith a Saesneg yn y ddau gyfnod allweddol. Disgyblion yn D i gael AA yn unol â'u Cynllun Addysg Unigol. Bydd adroddiadau i rieni ar berfformiad disgyblion yn rhoi sylwadau ar lafared, darllen ac ysgrifennu yn ogystal â'u cynnydd at fod yn hollol ddwyieithog. Tra bo'r maes effaith yn alinio â'r un blaenorol, mae gan y ddwy ysgol eisoes y gallu i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael AA mewn Cymraeg ar ddiwedd CA2.</p>
Canran y disgyblion a <u>gyflawnodd</u> mewn Aseiad Athro mewn Cymraeg yn Cyfnod Allweddol 1 a 2	Cadarnhaol	Niwtral	Niwtral (cadarnhaol yn y tymor canol)	<p>Cedwir golwg ar y canlyniadau hyn a'u cyflwyno i'r llywodraethwyr a rhieni. Gwneir cymariaethau gydag ysgolion ALI, cenedlaethol a 'theulu'.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cydweithio ag ysgolion cyfagos mewn CDP yn canolbwyntio ar ddatblygu llafared, darllen ac

	Dewisiadau 1 a 2	Dewis 3	Dewis 4	Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol
				ysgrifennu mewn lleoliad dwyieithog.
Cyfrwng iaith disgyblion ar y <i>buarth</i>	Negyddol (cadarnhaol yn y tymor canol)	Niwtral	Niwtral	Mae'r maes effaith hwn, a'r ddau nesaf, yn adlewyrchu mintai o ddisgyblion wedi'u cyfuno ble bydd gan ganran llawer llai o blant y sgiliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu chwarae. Er mwyn lleihau unrhyw effaith negyddol, bydd angen ystyried gweithredu'r camau canlynol cyn unrhyw ddewis cyfuno. Mewn ymgynghoriad â disgyblion a rhieni, y llywodraethwyr i lunio polisi ysgol ar annog defnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg. <ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymestyn y defnydd o "Bydis Buarth" i hyrwyddo chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg. ▪ Darparu marciau ac offer i alluogi gemau dosbarth ▪ Cefnogi staff goruchwyllo, ble'n berthnasol, i ddatblygu eu sgiliau iaith.
<i>Clwb Brecwast</i>	Negyddol (cadarnhaol yn y tymor canol)	Niwtral	Niwtral	Bydd arferion staff a gweithgareddau disgyblion yn cefnogi polisi'r ysgol o hyrwyddo dwyieithrwydd.
<i>Clwb ar ôl ysgol</i>	Negyddol (cadarnhaol yn y tymor hir)	Niwtral	Niwtral	
Ymwneud yr ysgol mewn gweithgareddau cyfrwng Y Gymraeg	Cadarnhaol	Niwtral	Niwtral (cadarnhaol yn y tymor canol)	Mae gan y ddwy ysgol broffil uchel gyda gweithgareddau allgyrsiol cyfrwng y Gymraeg. Dylid cynllunio cyfranogiad mewn ymgynghoriad â'r Cyngor Ysgol, gyda'r nod o gefnogi a datblygu dysgu yn y dosbarth. Adroddiad i lywodraethwyr yn flynyddol. <ul style="list-style-type: none"> ▪ Cefnogaeth gan yr Urdd/Menter iaith gyda digwyddiadau CRhA cyfrwng y Gymraeg. ▪ Darpariaeth cyfieithu ar y pryd i annog rhai di-Gymraeg i gymryd rhan ochr yn ochr â disgyblion.
Defnydd Staff / Llywodraethwyr o'r Gymraeg				
Gallu staff addysgu i addysgu trwy gyfrwng y	Cadarnhaol	Niwtral	Niwtral	Holl staff y ddwy ysgol eisoes yn gallu

	Dewisiadau 1 a 2	Dewis 3	Dewis 4	Sylwadau / lleihau'r effaith negyddol yn y dyfodol
Gymraeg			(cadarnhaol yn y tymor canol)	addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae sgiliau iaith o'r fath yn ased dynol gwerthfawr sy'n rhoi'r ysgol mewn sefyllfa fanteisiol o allu cynnig addysg cwbl ddwyieithog. Mae Dewis 1, 2 a 4 yn cynnig cyfleodd cynyddol i staff ddefnyddio eu sgiliau addysgu Cymraeg. Mae oedi effaith cadarnhaol ar ddau safle yn adlewyrchu newidiadau mwy graddol i batrymau iaith sydd wedi'u sefydlu. Cyfleoedd cynyddol i staff ddefnyddio eu sgiliau addysgu Cymraeg.
Gallu staff cefnogi i gynorthwyo trwy gyfrwng y Gymraeg	Cadarnhaol	Neutral	Niwtral (cadarnhaol yn y tymor canol)	Dylid dathlu gallu'r staff cefnogi i helpu disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dylai cyfleoedd hyfforddiant staff anelu at drin datblygu sgiliau Cymraeg bob bydd ymysg y rhai nad ydynt yn siarad yr iaith yn rhugl.
Iaith a ddefnyddir fwyaf yn ystod cyfarfodydd llywodraethwyr, CRhA a Staff	Niwtral (cadarnhaol yn y tymor canol)	Niwtral	Niwtral (cadarnhaol yn y tymor canol)	Pob gohebiaeth i fod yn ddwyieithog – gwefan, cofnodion llywodraethwyr, cylchlythyrau etc. Pan gynhelir cyfarfodydd yn Gymraeg cynigir darpariaeth cyfieithu ar y pryd i annog rhai di-Gymraeg i ddeall a chymryd rhan, e.e. cyngerdd Nadolig, cyfarfodydd tymhorol llywodraethwyr.
Ethos Cymreig				
Cynnal ethos Cymreig yr ysgolion a gosod pwysigrwydd ar y cwricwlwm Cymreig	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Mae Estyn yn nodi fod hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yn "dda" yn y ddwy ysgol. Bydd cyfuno yn gweld ymarfer da yn cael ei rannu. Byddant yn parhau i gynllunio'r cwricwlwm tuag at werthfawrogiad o gyfraniad artistiaid Cymreig, daearyddiaeth ffisegol a hanes Cymru a rhan dynion a merched Cymru mewn gwleidyddiaeth, y cyfryngau, y celfyddydau, chwaraeon, materion iaith, a bywyd dinesig yn gyffredinol.
Cyd Effaith ar y Gymraeg	+3 Cadarnhaol	Niwtral	Niwtral	

4. Casgliadau ac Argymhellion

4.1 Casgliadau

Canlyniadau'r Asesiad Effaith Iaith Gymraeg (adran 3) yw:

- Dewis 1 a 2 – Ysgol Ardal ar un safle (newydd) +3 Cadarnhaol
- Dewis 3 – Cadw'r Ysgolion Presennol Niwtral
- Dewis 4 – Ysgol Ardal ar y ddau safle sy'n bodoli Niwtral

Felly argymhelliad yr adroddiad hwn yw bod Ysgol Ardal ar un safle (Dewis 1 a 2) yn cael ei ystyried fel y ffordd orau ymlaen i gadw a hyrwyddo'r Gymraeg.

4.2 Argymhellion i Gefnogi Newid

- R1 Byddai angen i ddarpariaeth cyn-ysgol sy'n bodoli alinio ei hun â pholisi'r ysgol o ddatblygu dwyieithrwydd. Bydd angen ystyried cefnogaeth ychwanegol i blant gan y Mudiad Ysgolion Meithrin a gan Menter Iaith i oedolion. Yn ddefnyddiol, bydd cyfleusterau cyn-ysgol cymunedol ar-safle yn cael eu datblygu fel rhan o'r adnodd newydd.
- R2 Bydd angen cadw golwg agos ar gynnydd tuag at ddwyieithrwydd a chanfod adnoddau i hyrwyddo datblygiad iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw bod yn ddwyieithog o reidrwydd yn dyblygu pob sgil yn y ddwy iaith. Mae rhai sgiliau yn rhwydd i'w trosglwyddo. Mae confensiynau ysgrifennu yn enghraifft o sgiliau iaith trosglwyddadwy. Bydd angen cynllunio gofalus i osgoi dyblygu a chaniatáu i sgiliau ddatblygu ar gontinwmm. Yn y pen draw, byddai disgyblion hollol ddwyieithog (Mintai A) ym mlwyddyn 6 yn gallu dangos eu gallu trawsieithu - ystyried gwybodaeth mewn un iaith a'i fynegi trwy gyfrwng iaith arall, e.e. darllen am bwnc mewn gwyddoniadur Saesneg ar y we a chyflwyno'r wybodaeth honno trwy gyflwyniad yn y Gymraeg.
- R3 Mae tracio effeithiol o sgiliau iaith disgyblion eisoes yn bodoli yn y ddwy ysgol. Bydd cyfuno yn ceisio datblygu'r ymarfer gorau a chanolbwyntio ar dracio caffaeliad sgiliau iaith disgyblion.
- R4 Byddai trosglwyddiad o'r cynradd i'r uwchradd yn elwa o dracio caffaeliad iaith. Byddai ymgynghori blynyddol gyda rhieni yn caniatáu trafodaeth am ddewisiadau iaith posib ar lefel uwchradd. Ar ddiwedd blwyddyn 6 dylai pob disgybl fod wedi cyrraedd lefel o hyfedredd yn y ddwy iaith er mwyn caniatáu dewis realistig o barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.
- R5 Byddai hwyrdyfodiaid i'r ysgol yn CA2, sy'n dymuno gwneud hynny, yn gallu mynychu'r Uned Gymraeg yn Ysgol Dolgarrog. Ystyrir fod angen L.3 cadarn mewn Cymraeg i ddisgyblion ddilyn y cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Nod yr uned yw galluogi cynnydd mewn Cymraeg o ddim i L.3 yn ystod un tymor. Er mwyn cefnogi datblygiad iaith pob disgybl wrth symud o ddwy ysgol i un, byddai'r Uned Iaith yn gallu symud dros dro i'r safle newydd, gan gynyddu nifer y staff sydd yno a darparu cyngor ar ddulliau addysgu, adnoddau etc.
- R6 Rhagwelir y gallai cyfuno gael effaith negyddol ar ddarpariaeth tu allan i'r dosbarth; gweithgareddau buarth, clwb brechwast a chlwb ar ôl ysgol. Byddai nifer cynyddol o siaradwyr di-Gymraeg yn cael effaith ar y 'Gymraeg gyda

Saesneg achlysurol' sy'n bodoli. Byddai cadw cyfleuster 'dwyieithog' yn cael ei gefnogi trwy annog a chefnogi staff di-Gymraeg i ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle gyda'r disgyblion.

- R7 Ym mhob gweithgaredd byddai'r ysgol yn hyrwyddo cynnwys y Gymraeg. Byddai cyfathrebu trwy'r Gymraeg a'r Saesneg, gan ddefnyddio technoleg fodern a chyfieithu ar y pryd pan fo'n bosib. Byddai'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i oedolion – rhieni ac aelodau'r ardal ddysgu siarad Cymraeg ar lefel disgyblion.

Dull Asesiad Effaith Iaith

(Ar gyfer pob dewis o fewn ardal)

I fesur yr effaith mae pob dewis yn ei gael ar y fantais bod 'Yr ysgol yn cyfarfod anghenion iaith y disgyblion'.

Amlinelliad ar gyfer pob asesiad:

Bydd angen ystyried y canlynol ar gyfer bob dewis o fewn ardal e.e. os oes gan ardal bedwar dewis, yna byddai angen sgôr ar gyfer y pedwar dewis yn yr ardal:

Ardal	Ysgolion	Band Ymgynghori	Dewis sy'n cael ei arwain gan y gyrwyr (1)	Dewis a ddymunir gan yr ardal (2)	Dewisiadau eraill	
					Dewis (3)	Dewis (4)
(Enw) Ardal	Ysgol 1 Ysgol 2 Ysgol 3	A	Ysgol ardal newydd ar un safle .	Cadw'r ysgolion presennol	Ysgol ardal ar un safle trwy ailfodelu ysgol 1	Ysgol ardal ar y 3 safle sy'n bodoli.

- Byddai angen llenwi'r tabl canlynol ar gyfer pob ysgol.
- Ble'n bosibl, byddai'r data'n cael ei gymryd o gasgliadau data sy'n bodoli e.e. ffurflen PLASC.
- Ble nad yw'r data ar gael, gofynnir cwestiynau i'r ysgolion fel rhan o gasglu data Asesiad Effaith Cymunedol.
- Ar ôl llenwi'r tabl, fe'i hanfonir at bennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr i gytuno a chadarnhau'r data.
- Gan ystyried pob dewis ar gyfer yr ardal yn ei dro, ac ystyried y data a gasglwyd, byddai'r effaith ar bob pennawd (e.e. % o ddisgyblion o gartrefi ble siaradir yr iaith) yn cael ei farnu fel 'Negyddol', 'Niwtral' neu 'Gadarnhaol'.
- Byddai hyn yn cyfrannu i'r Gwerthusiad Dewis gyffredinol gyda 'Negyddol' yn sgorio 1, 'Niwtral' yn sgorio 3 a 'Cadarnhaol' yn sgorio 5.
- Yna ysgrifennir adroddiad i gynnwys y tabl, sgoriau a chanlyniadau cyffredinol.

	Ysgol	Ysgol
Nifer y Disgyblion (yn Ionawr 2011)		
Categori ieithyddol yr ysgol		
Defnydd Disgyblion o'r Gymraeg		
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref: <i>Siarad Cymraeg gartref</i> <i>Nid yn siarad Cymraeg gartref</i> <i>Amherthnasol (nid yn gallu siarad Cymraeg)</i>		
Canran a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg		
Canran o blant <u>a gafodd</u> Asesiad Athro mewn Cymraeg erbyn diwedd <i>Cyfnod Allweddol 1</i> <i>Cyfnod Allweddol 2</i>		
O'r rhai gafodd Asesiad Athro yn Gymraeg, y ganran o blant a <u>gyflawnodd</u> yn <i>Cyfnod Allweddol 1</i> <i>Cyfnod Allweddol 2</i>		

Cyfrwng iaith disgyblion yn y <i>Buarth</i> <i>Clwb Brechwast</i> <i>Clwb ar ôl ysgol</i>		
Yr ysgol yn cymryd rhan yn flynyddol mewn: <i>Cylch Meithrin / Ti a Fi</i> <i>Eisteddfodau</i> <i>Urdd</i> <i>Ymweliadau dysgu Cymraeg (e.e. Glan Llyn)</i> <i>Gweithgareddau cyfrwng Cymraeg eraill</i>		
Defnyddir yr ysgol gan drigolion yr ardal i ddysgu Cymraeg		
Defnydd Staff / llywodraethwyr o'r Gymraeg		
Canran o staff addysgu sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg		
Canran o staff cefnogi sy'n gallu siarad Cymraeg: <i>Yn rhugl</i> <i>Siarad Cymraeg ond nid yn rhugl</i> <i>Ni allant siarad Cymraeg</i>		
Canran o lywodraethwyr sy'n gallu siarad Cymraeg: <i>Yn rhugl</i> <i>Siarad Cymraeg ond nid yn rhugl</i> <i>Ni allant siarad Cymraeg</i>		
Iaith a ddefnyddir fwyaf yn ystod: <i>Cyfarfodydd llywodraethwyr</i> <i>Cyfarfodydd CRhA</i> <i>Cyfarfodydd Staff</i>		
Defnydd o'r Gymraeg yn y Gymdeithas (Cyfrifiad 2001)		
(rhai 3+) Canran o Ward Marl sy'n: <i>Siarad Cymraeg</i> <i>Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg</i> (rhai 3+) Canran o Ward Pensarn sy'n: <i>Siarad Cymraeg</i> <i>Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg</i>		

Mintai iaith

Defnyddiwyd mintai iaith i ddiffinio datblygiad ieithyddol disgyblion mewn Cymraeg a Saesneg wrth iddynt weithio tuag at gyflawni dwyieithrwydd.

Mintai	Diffiniad o'r math o ddisgybl yn ôl ei g/allu ieithyddol
A	Disgyblion sydd â gallu cytbwys mewn Cymraeg a Saesneg sy'n briodol o ran oedran
B	Disgyblion sydd â gallu priodol mewn Cymraeg ond sydd angen cryfhau rhai agweddau o'u sgiliau ieithyddol mewn Saesneg
C1	Disgyblion sydd â gallu priodol mewn Saesneg ond sydd angen cryfhau rhai agweddau o'u sgiliau ieithyddol mewn Cymraeg
C2	Disgyblion sydd â gallu priodol mewn Saesneg ond nid oes ganddynt y sgiliau priodol o ran oedran mewn Cymraeg
D	Disgyblion heb sgiliau priodol o ran oedran mewn unrhyw iaith